GWEDDI AR GYFER NADOLIG 2020

ODDI WRTH CYNNAL, STAFELL FYW CAERDYDD, CAIS ac ADFERIAD RECOVERY

Arglwydd y bywyd, deuwn gyda thyrfaoedd byd
i'th addoli a'th fawrhau y Nadolig hwn.
Mae'r byd tu-chwith-allan hwn yn ymddangos
mor gymysglyd yn y llanast Cofidaidd hwn,
gyda chynron anghyfiawnder a chasineb yn cnoi
ar gnawd ein hofnau dynol.
Gweddïwn am iachâd i'n cymunedau clwyfedig
a chymod yn ein cenhedloedd rhwygedig.
Gweddïwn am iachâd o feirws Cofid
Ac eneidiau mewn cytgord yng nghanol byd o anghytgord.

Cofiwn yn weddïgar am ein gilydd gyda'n anghenion amrywiol,
yr ofnus a'r bregus, yr unig a'r di-hwyl.
Mewn byd hunanol a thrist
cofiwn yn arbennig am y sawl sydd wedi eu dal
yng ngwëau cam-ddefnydd sylweddau,
gan ymbil am well dealltwriaeth o'r dioddefwyr.
Gweddïwn drosom ein hunain,
- y cawn y dewrder i wynebu ein anghenion,
beth bynnag ydynt,
ac am obaith
y deuwn o hyd i'r datrysiad o'n gwahanol anawsterau.

Boed i'th oleuni lewyrchu ym mhob cornel dywyll y Nadolig hwn,
ac i'th ras gael ei amlygu yn y llefydd mwyaf trist.
Cymorth ni, hyd yn oed yn nhomen ein materoliaeth, i weld dy harddwch Di,
ac i deimlo, mewn byd o densiynau, dy lonyddwch sanctaidd.
Wrth i ni glywed ymadroddion a melodïau'r Nadolig,
Pâr i ni brofi bendith dy bresenoldeb yn ein bywydau.
Amen

cynnal

STAFELL FYW CAERDYDD
YN AGOR Y DRWS I FYWYD NEWYDD
LIVING ROOM CARDIFF
OPENING THE DOOR TO A NEW LIFE

CAIS
empowering change
grymuso newid

ADFERIAD RECOVERY

WWW.CYNNAL.WALES | WWW.LIVINGROOM-CARDIFF.COM